Dinas a Sir Abertawe

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Archifau Gorllewin Morgannwg

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Gwener, 12 Mawrth 2021 am 11.00 am**

**Yn Bresennol**: Louise Fleet (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

**Y Cynghorydd(wyr) - Abertawe**

| | | |
|---|---|---|
| P M Black | L R Jones | R V Smith |

**Y Cynghorydd(wyr) - Castell-nedd Port Talbot**

| | | |
|---|---|---|
| A R Aubrey | W F Griffiths | H N James |
| R Mizen | P A Rees | |

**Sefydliadau Cysylltiedig**

| | |
|---|---|
| Andrew Dulley | Esgobaeth Abertawe ac Aberhonddu |
| Sarah Perons | Esgobaeth Llandaf |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| G Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| K Collis | Archifydd Sirol |
| C Griffiths | Cyfreithiol - CNPT |
| W John | Llyfrgellydd Sirol - CNPT |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Y Cynghorydd(wyr) - Abertawe: M Durke a/ac L S Gibbard
Y Cynghorydd(wyr) - Castell-nedd Port Talbot:
Sefydliadau Cysylltiedig: Dr L Miskell
Swyddog(ion): Tracey McNulty

---

## 24 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan y ddau awdurdod, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 25 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion Pwyllgor Archifau Gorllewin Morgannwg a gynhaliwyd ar 11 Rhagfyr 2020 fel cofnod cywir.

## 26 2021/2022 Cyllideb Refeniw.

Cyflwynodd Kim Collis adroddiad y Cyfarwyddwr Lleoedd, a oedd yn nodi manylion Cyllideb Refeniw'r Gwasanaeth Archifau ar y Cyd ar gyfer 2021/2022 a'r arian wrth gefn sydd gan y Gwasanaeth Archifau ar y Cyd, er gwybodaeth yn unig

Dywedodd ei bod unwaith eto'n gyllideb ddigyfnewid rithwir, ac eithrio codiad bach ar gyfer codiad cyflog byw.

Mae'r tabl yn yr adroddiad yn dangos sefyllfa amcangyfrifedig arian wrth gefn yr Archifau ar 31 Mawrth 2021. Roedd hyn wedi codi £30,000 yn ystod y flwyddyn oherwydd tanwariant yn y gyllideb sy'n gysylltiedig â'r pandemig.

Cafwyd trafodaeth ynghylch defnyddio'r cronfeydd wrth gefn a'r posibilrwydd o ail-gyflwyno'r gronfa gyhoeddiadau pe bai'r angen yn codi.

Dywedodd nad yw swydd yr Hyfforddai Archifau wedi'i llenwi ar hyn o bryd oherwydd materion recriwtio a manylodd ar y cynnydd yn oriau'r staff eraill er mwyn sicrhau parhad y gwasanaeth.

Nododd aelodau'r adroddiad.

## 27 Adroddiad Archifydd y Sir.

Cyflwynodd yr Archifydd Sirol adroddiad a oedd yn amlinellu gwaith y Gwasanaeth Archifau ar y Cyd yn ystod y cyfnod rhwng mis Rhagfyr 2020 a mis Chwefror 2021.

Ffïoedd a thaliadau

Cyfeiriodd Kim Collis at y tabl ffïioedd a thaliadau ar gyfer y Gwasanaeth sy'n aros yn ddigyfnewid o 2020 ac a fydd yn gymwys o 1 Ebrill 2021.

Nododd aelodau'r pwyllgor lefelau ffïoedd a thaliadau a chefnogodd rewi taliadau o ystyried y cyd-destun economaidd ehangach.

Pandemig COVID-19

Amlinellodd fod y gwasanaeth wedi ailagor i'r cyhoedd ar gapasiti llawer llai y llynedd, gyda mesurau cadw pellter cymdeithasol ar waith, cyn y cyfyngiadau symud cenedlaethol diweddaraf ar 19 Rhagfyr.

Nododd fod y staff yn parhau, fel rheol, i weithio gartref, wrth gynnal ymweliadau corfforol rheolaidd â'r Ganolfan Ddinesig, er mwyn sicrhau bod yr ystafell ddiogel yn cael ei harchwilio, bod post yn cael ei gasglu, bod unrhyw waith angenrheidiol yn cael ei wneud a bod dogfennau ar gyfer staff y cyngor yn cael eu casglu.

Nododd y bydd defnyddio a darparu'r gwasanaeth yn y dyfodol yn dibynnu llawer ar hyder gwirfoddolwyr a defnyddwyr i ddychwelyd i "normal" ac ymweld â'r cyfleusterau yn bersonol.

Allgymorth a Gweithgarwch Addysgol

Manylodd ar y gwahanol ddarnau o waith yr oedd y gwasanaeth wedi bod yn ymwneud â hwy i gofio'r Blitz Tair Noson, a nododd ei 80fed pen-blwydd rhwng 18 a 21 Chwefror 2021, a oedd yn cynnwys cyhoeddi cofeb ar-lein a oedd yn cynnwys 392 o enwau, gyda gwybodaeth am ble maent wedi'u claddu a sut i gael rhagor o wybodaeth. Mae rhan ar wahân o'r gofeb yn cynnwys enwau'r 26 o bobl a fu farw yn ardal Castell-nedd Port Talbot. Mae'r gofeb ar gael ar wefan y Gwasanaeth Archifau yn www.abertawe.gov.uk/article/60958/Cofior-Blits-Abertawe.

Amlinellodd fod y Gwasanaeth, ar yr un dyddiad y llynedd, wedi cyhoeddi ailargraffiad o waith Dr John Alban o 1994 o'r enw *The Three Nights' Blitz*. Ar 19 Chwefror, rhoddodd Dr Alban sgwrs ar-lein am gyrchoedd awyr Abertawe ar ran y Gwasanaeth Archifau. Daeth 176 o bobl i'r digwyddiad byw a chafwyd llawer iawn o adborth cadarnhaol. Gwnaed recordiad sain o'r sgwrs ac mae wedi'i lanlwytho i'r sianeli cyfryngau cymdeithasol, roedd hyn wedi'i rannu dros 100 o weithiau a gwrandawyd arno dros 2,000 o weithiau.

Cynhyrchwyd dwy ffilm hefyd gan y Gwasanaeth Archifau a chawsant eu postio ar gyfryngau cymdeithasol i adrodd hanes y Blitz o wahanol safbwyntiau. Mae'r cyntaf yn seiliedig ar adroddiad o ddyddiadur rhyfel James R John, newyddiadurwr lleol ac aelod o'r Gwarchodlu Cartref, ac mae'r ail yn defnyddio ffotograffau o'r casgliadau i ddangos effaith y Blitz ar y dref. Ceir fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r ddwy ffilm. Mae'r cyntaf wedi'i wylio dros 2,600 o weithiau tra bod yr ail wedi'i wylio dros 13,100 o weithiau. Gellir gweld y ddwy ffilm a sgwrs Dr Alban ar wefan y Gwasanaeth Archifau yn www.abertawe.gov.uk/article/61449/Hanes-y-Blits-Tair-Noson-Abertawe.

Cafodd y digwyddiadau coffa gyhoeddusrwydd eang, gan gynnwys ar ein cyfryngau cymdeithasol ac yn y wasg. Cafodd ei gynnwys ar wefan BBC Cymru (https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-56082255) ac yn y South Wales Evening Post.

Amlinellodd hefyd fod adnoddau addysgu ychwanegol sy'n ymwneud â'r Blitz wedi'u hychwanegu at y ddarpariaeth ar-lein a'u bod ar gyfer disgyblion CA2 a CA3 yn bennaf.

Amlinellodd ymhellach y gwaith sy'n mynd rhagddo ynghylch cysylltiad Cymru â'r Fasnach Gaethwasiaeth, sydd wedi datblygu'n brosiect Cymru gyfan gyda chyfraniadau gan wasanaethau archifau ledled y wlad a'r Llyfrgell Genedlaethol.

Nododd fod y cynnig a'r syniad hefyd wedi datblygu'n ddau fodiwl, y cyntaf yn edrych ar y fasnach gaethwasiaeth, a'r ail yn edrych ar dwf cymunedau amrywiol ym mhorthladdoedd glo De Cymru yn oes Fictoria.

Amlinellodd ei gymorth mewn cynigion ar gyfer dadorchuddio plac glas Cyngor Abertawe i'r ymgyrchydd gwrth-gaethwasiaeth, Jessie Donaldson, 1799-1889, a gynlluniwyd i'w ddadorchuddio'n rhithwir ar 25 Mawrth. Mae'r diwrnod yn arwyddocaol fel Diwrnod Cofio'r Cenhedloedd Unedig ar gyfer dioddefwyr y fasnach

gaethwasiaeth hanesyddol. Bydd y digwyddiad yn cael ei ffilmio a bydd ar gael ar sianel YouTube Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Dywedodd y byddai'n rhannu dolen y recordiad ag aelodau'r pwyllgor pan fydd ar gael.

Hen adeilad British Home Stores

Amlinellodd fod cyfle wedi codi i ystyried 275-277 Stryd Rhydychen Abertawe, hen adeilad British Home Stores, i'w droi'n ystorfa archifau, ystafell chwilio a Chanolfan Hanes Teuluol yn y dyfodol. Byddai hyn ochr yn ochr â defnyddiau eraill ar gyfer yr adeilad a fyddai'n cynnwys Llyfrgell Ganolog newydd Abertawe a Hwb Cymunedol.

Dywedodd fod cyllid wedi'i roi er mwyn i dîm amlddisgyblaethol gynnal asesiad o drawsnewidiad posib yr adeilad hwn. Prif ystyriaethau'r Archifau yw a oes gan yr adeilad y potensial i fodloni Safon Brydeinig 16893:2018 ar gyfer storio archifol ac a yw'r trawsnewidiad yn gwneud synnwyr yn economaidd o'i gymharu â chost datrysiad amgen fel adeilad newydd. Mae Llywodraeth Cymru a'r Archifau Gwladol yn darparu cyngor ac arweiniad drwy gydol y broses ac ar awgrym Llywodraeth Cymru, mae'r gwasanaeth wedi tanysgrifio i'r Gwasanaeth Cadwraeth Cenedlaethol er mwyn helpu i ddarparu rhywfaint o'r cyngor arbenigol sydd ei angen ar anghenion cadwraeth y casgliadau.
Croesawodd yr Aelodau'r potensial ar gyfer datblygu cyfleuster newydd yng nghanol y ddinas ar gyfer y gwasanaeth.

Staff

Amlinellodd fod Goruchwyliwr y Ganolfan Hanes Teulu, Lorna Crook, wedi gadael y gwasanaeth ar 5 Rhagfyr i ymgymryd â chyflogaeth gyda'r GIG. Roedd hi'n gydweithiwr uchel ei pharch ac yn un boblogaidd iawn gyda defnyddwyr hanes teuluol yn ein mannau gwasanaeth yn Abertawe a Chastell-nedd. Mae'r swydd yn aros yn wag ar hyn o bryd.

Defnydd o'r gwasanaeth

Nododd fod y ffigurau sy'n ymwneud â defnyddio'r gwasanaeth yn adlewyrchu effaith y pandemig

Sgyrsiau a Chyfarfodydd Proffesiynol

Adroddodd am y cyfarfodydd amrywiol y bu'r staff yn bresennol ynddynt yn ystod y chwarter.

Casgliadau'r Archifau

Adroddodd ar y rhestr o archifau a dderbyniwyd gan y Gwasanaeth yn ystod y chwarter, yn enwedig y casgliad a gaffaelwyd gan y gwasanaeth gan gasglwr yr oedd ganddo saith cyfarchiad goliwiedig a gyflwynwyd ar wahanol adegau i Syr Henry Hussey Vivian rhwng 1876 a 1893 gan amrywiol grwpiau a sefydliadau yn Abertawe, gan gynnwys un yn cofnodi rhoi rhyddid anrhydeddus y dref iddo.

Defnydd o'r gwasanaeth

Adroddodd am y defnydd o'r gwasanaeth am y chwarter, gan nodi’r cefndir a'r rhesymeg y tu ôl i'r ystadegau chwarterol.

Nododd ei fod yn disgwyl i'r ffigurau presenoldeb ar gyfer y chwarter nesaf fod yn sylweddol is o ganlyniad i bandemig Coronafeirws.

Daeth y cyfarfod I ben am 12.14 pm

**Cadeirydd**